**Neges oddi wrth Dîm Plismona Cymdogaethau Wrecsam Wledig**

Fel mae gwyliau'r haf yn nesáu, hoffai Heddlu Gogledd Cymru a Thîm Plismona Cymdogaethau Wrecsam Wledig ofyn am eich help chi, er mwyn parhau lleihau ymddygiad gwrthgymdeithasol yn ein cymunedau ni.

'Da ni'n ymwybodol o nifer o fannau lle mae plant yn hel ac yn tresmasu mewn eiddo gwag neu dai sy'n cael eu hadeiladu, ac mae difrod wedi digwydd yno. Nid yn unig mae hyn yn berygl i'ch plant chi, ond gall hefyd arwain at erlyniad.

Mae nifer o drigolion hŷn a bregus sydd methu ymdopi efo eu drysau'n cael eu cnocio yn barhaus, neu eu planhigion yn cael eu troi, a 'da ni wir ddim eisiau gorfod cnocio ar eich drws er mwyn cael y sgyrsiau hynny efo chi.

Mi fyddwn ni'n anfon negeseuon ar y cyfryngau cymdeithasol os bydd cynnydd mewn ardal benodol, a'r cwbl 'da ni'n ei ofyn ydy eich bod yn cael sgwrs efo'ch plant i'n helpu ni anfon y neges nad ydy'r math yma o ymddygiad yn dderbyniol.

Mae nifer o weithgareddau sy'n rhad ac am ddim yn cael eu cynnal yn y cymunedau ar gyfer y plant, ac mae dolenni i'r rhain isod. Mi fyddwn ni'n mynychu gymaint o'r rhain â phosib, er mwyn siarad efo'r plant – dewch draw i ddweud helo!

https://www.wrecsam.gov.uk/service/prosiectau-gwaith-chwarae

https://www.wrexham.gov.uk/service/free-swimming

https://www.wrecsam.gov.uk/services/llyfrgelloedd

https://www.avow.org/cy/

'Da ni hefyd wedi cynnwys y ddolen i'n rhybuddion cymunedol ni – mae hyn yn eich caniatáu chi dderbyn negeseuon sy'n berthnasol i'r ardal lle 'da chi'n byw; i roi gwybod i chi am gynnydd mewn troseddau, neu anfon gwybodaeth ddefnyddiol. Mae ond yn cymryd ambell funud i gofrestru –

https://www.rhybuddcymunedolgogleddcymru.co.uk/

***Mwynhewch y gwyliau haf!***

***Tîm Plismona Cymdogaethau Wrecsam Wledig***